ASESIAD EFFAITH CYMUNEDOL

Cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm i greu un ysgol ardal ar 1 Medi 2019

Gwanwyn 2018

CYNGOR Sir y Fflint Flintshire COUNTY COUNCIL

1. Cyflwyniad

1.1. Mae Cyngor Sir y Fflint yn dymuno ceisio barn partïon â diddordeb ynghylch y cynnig i Uno Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm i greu un ysgol ardal o 1 Medi 2019.

1.2. Mae dogfen ymgynghori ffurfiol yn nodi gwybodaeth y dylai ymgyngoreion ystyried er mwyn cymryd rhan lawn yn y broses ymgynghori. Mae'r broses yn dilyn canllawiau rheoleiddio fel y nodir yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion Llywodraeth Cymru 2013.

1.3. Y ffigurau, ystadegau a deunydd y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon yw'r rhai mwyaf cywir sydd ar gael ar adeg ei chyhoeddi.

2. Diben yr Asesiad

2.1. Mae Asesiad Effaith Cymunedol yn ceisio adnabod effeithiau posibl y gallai cynnig ei gael ar y boblogaeth leol. Mae pob ysgol wedi darparu gwybodaeth am eu rôl yn y gymuned a'u cysylltiadau â chyfleusterau a busnesau cymunedol.

2.2. Bydd yr Asesiad Effaith Cymunedol yn ystyried goblygiadau negyddol a chadarnhaoly cynnig.

3. Proffil yr Ysgolion ac Ardal

3.1. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd wedi'i leoli ym mhlwyf Brynffordd, i'r de o Dreffynnon yn Sir y Fflint. Yn ôl y Cyfrifiad diweddaraf yn 2011, poblogaeth y plwyf oedd 1,059[1].

3.2. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm wedi'i leoli ym mhlwyf cyfagos Ysceifiog, oedd â phoblogaeth o 1,286[2] yn 2011.

3.3. **Error! Reference source not found.**Mae Ffigur 1 yn dangos lleoliad yr ysgolion mewn cysylltiad â'u gilydd, gyda phellter o 1.96 milltir rhyngddynt.

[1] (Office of National Statistics, 2011)

[2] (Office of National Statistics, 2011)



Ffigur 1

3.4. Mae'r ddwy ysgol gynradd yn rhoi addysg i blant rhwng 3 a 11 mlwydd oed trwy gyfrwng Saesneg.

3.5. Ym mis Medi 2017, roedd 67 o ddisgyblion wedi'u cofrestru yn llawn amser yn Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac roedd 52 disgybl wedi cofrestru'n llawn amser yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm.

3.6. Mae yna bedwar cais cynllunio am ddatblygiadau tai wedi'u cymeradwyo yn ardaloedd Brynffordd a Licswm ym mis Ionawr 2018.

4. Proffiliau Cymunedol

4.1. Ym mis Ionawr 2018, fe gwblhaodd a diweddarodd benaethiaid pob ysgol Arolwg Effaith Cymunedol i ddangos sut mae'r ysgolion yn rhyngweithio â'u cymunedau. Mae'r wybodaeth a dderbyniwyd, wedi'i chrynhoi isod, gan gynnwys strwythur llywodraethu, gweithgareddau allgyrsiol a chyfleusterau lleol y mae'r ysgol yn eu defnyddio.

4.2. Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

4.3. Mae Tabl 1 yn dangos y strwythur llywodraethu presennol.

Rôl y Llywodraethwr	Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd
Rhiant	3
Cymuned	1 (ac 1 lle gwag)
Awdurdod Lleol	2
Mân Awdurdod	1
Pennaeth	1
Athro	1
Staff	1
CYFANSWM	10

Tabl 1: Strwythur Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd Ionawr 2018

4.4. Mae Tabl 2 yn dangos y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion.

Gwasanaeth	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Clwb Brecwast	Yn ystod y tymor	5	20	38 wythnos y flwyddyn	Hydref 2006
Clwb Cool Kidz	Yn ystod y tymor	5	20	38 wythnos y flwyddyn	Ionawr 2007
Clwb yr URDD	Yn ystod y tymor	3	12	10 wythnos y flwyddyn	Medi 1990
Clybiau chwaraeon allgyrsiol	Yn ystod y tymor	3	12	24 wythnos y flwyddyn	Sefydledig
Clwb tennis bwrdd	Yn ystod y tymor	1	4	12 wythnos y flwyddyn	Medi 2017
Cyfarfodydd cyngor ysgol	Yn ystod y tymor	1	4	12 wythnos y flwyddyn	Sefydledig
Clwb garddio	Yn ystod y tymor	1	4	10 wythnos y flwyddyn	Medi 2014
Clwb Eco	Yn ystod y tymor	1	4	36 wythnos y flwyddyn	Medi 2008
Côr	Yn ystod y tymor	1	4	12 wythnos y flwyddyn	Medi 2015
Clwb gofal gwyliau	Yn ystod y gwyliau	5	9	8 wythnos y flwyddyn	Gorffennaf 2015
Clwb Ffrangeg	Yn ystod y tymor	5	9	8 wythnos y flwyddyn	2013
Clwb celf a chrefftau	Yn ystod y tymor	5	12	12 wythnos y flwyddyn	Medi 2007

Tabl 2: Gweithgareddau Allgyrsiol Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

4.5. Mae Tabl 3 yn dangos y cyfleusterau lleol y mae'r ysgol yn eu ddefnyddio.

Cyfleuster	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Eglwys Sant Mihangel	Yn ystod y tymor			3	Sefydledig
Capel Calcoed	Yn ystod y tymor			2	Sefydledig
Oares Coaches	Yn ystod y tymor			12 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Mynwent anifeiliaid a chaffi	Y ddau			12 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Llwybrau Beicio Cenedlaethol	Y ddau			12 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Prosiect Hanes Cymunedol	Yn ystod y tymor			3 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Priordy Pantasaph	Yn ystod y tymor			Unwaith y flwyddyn	Sefydledig
Cae Pob Tywydd	Y ddau			38 wythnos y flwyddyn	Sefydledig
Parc Brynffordd	Yn ystod y tymor			4 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Parc Brynffordd a Mynydd Helygain	Y ddau			6 gwaith y flwyddyn	Sefydledig

Tabl 3: Cyfleusterau Lleol y mae Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd yn eu defnyddio

4.6. Mae Tabl 4 yn dangos cyfleusterau'r ysgol y mae grwpiau lleol yn eu ddefnyddio.

Defnyddiwr a'r cyfleuster	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Cool Kidz	Yn ystod y tymor	5	20	38	
Cyngor Cymuned	Y ddau		1	12	Sefydledig
Pwyllgor codi arian yr Urdd	Yn ystod y tymor			3	Medi 2015
Mountain Ranger	Y ddau			4 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Cynllun Chwarae Cyngor Sir y Fflint	Yn ystod y gwyliau	5		3 wythnos y flwyddyn	Sefydledig
Pwyllgor cyfleusterau cymunedol	Y ddau			4 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
FOBS Sêl Cist Car Bingo Cymunedol Ffair Nadolig Picnic yr haf Diwrnod "Busy Bee"	Y ddau			12 gwaith y flwyddyn	Sefydledig

Defnyddiwr a'r cyfleuster	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Campau'r Ddraig	Yn ystod y tymor			12 gwaith y flwyddyn	Sefydledig
Clwb llyfrau	Yn ystod y tymor		4		
Clwb Pêl-droed	Yn ystod y tymor	1	4	30	Sefydledig

Tabl 4: Cyfleusterau Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd y mae Grwpiau Lleol yn eu defnyddio

4.7. Mae Tabl 5 yn dangos y cyfleusterau cymunedol sydd wedi'u lleoli ger yr ysgol.

Enw'r Cyfleuster/Busnes	Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg	Dyddiad Dechrau
Oares Coaches	Saesneg	Sefydledig
Siop Brynffordd	Saesneg	Sefydledig
Clwb Golff Treffynnon	Saesneg	Sefydledig
Clwb pob tywydd	Saesneg	Sefydledig
Eglwys Sant Mihangel	Saesneg	Sefydledig
Capel Calcoed	Dwyieithog	Sefydledig
Mynwent Anifeiliaid	Saesneg	Sefydledig
Meithrinfa Wendy House	Saesneg	Sefydledig
Chwarel Helygain	Saesneg	Sefydledig
Glan yr Afon Inn	Saesneg	Sefydledig
Crooked Horn Inn	Saesneg	Sefydledig
Cytiau cŵn	Saesneg	Sefydledig

Tabl 5: Cyfleusterau Lleol sydd ger Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

4.8. Mae Tabl 6 yn dangos y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ger yr ysgol.

Enw'r Cyfleuster/Busnes	Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg	Dyddiad Dechrau
Odynau Calch	Saesneg	Sefydledig
Chwarel Pant y Pwll Dŵr	Saesneg	Sefydledig
Clwb Marchogaeth Ceffylau yn Linden Farm	Saesneg	Sefydledig
Sioe Caerwys	Saesneg	Sefydledig
Clwb hen dractorau	Saesneg	Sefydledig
Clwb Pêl-droed	Saesneg	Sefydledig

Tabl 6: Gweithgareddau Cymunedol ger Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

4.9. Mae Tabl 7 yn dangos gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn yr ysgol.

Enw Darparwr Gofal Plant	Iaith	Yn annibynnol o'r ysgol	Lleoliad y Ddarpariaeth	Diwrnodau y mae'n weithredol
Cool Kidz	Saesneg	Ydi	Neuadd yr ysgol	LLUN–GWENER 3.15-6:00 Yn ystod y tymor
Clwb Gwyliau	Saesneg	Ydi	Ar dir yr ysgol	LLUN–GWENER 8am-6pm Yn ystod y gwyliau
Clwb Brecwast	Saesneg	Nac ydi	Neuadd yr ysgol	LLUN–GWENER

Enw Darparwr Gofal Plant	Iaith	Yn annibynnol o'r ysgol	Lleoliad y Ddarpariaeth	Diwrnodau y mae'n weithredol
				8am-8.45 Yn ystod y tymor
Hawl Bore Oes	Saesneg	Nac ydi	Ysgol	Llun-IAU 12.45-3.15 Yn ystod y tymor

Tabl 7: Darpariaeth Gofal Plant Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd

4.10. Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

4.11. Mae Tabl 8 yn dangos y strwythur llywodraethu presennol.

Rôl y Llywodraethwr	Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm
Rhiant	3
Cymuned	2
Awdurdod Lleol	1 (ac 1 lle gwag)
Mân Awdurdod	1
Pennaeth	1
Athro/ Staff	2
CYFANSWM	10

Tabl 8: Strwythur Llywodraethu Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

4.12. Mae Tabl 9 yn dangos y gweithgareddau allgyrsiol sydd ar gael i ddisgyblion.

Gwasanaeth	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Clwb Brecwast	Yn ystod y tymor	5			Yn breifat o 2005 yna Brecwast am Ddim o Fedi 2006
Clwb ar ôl ysgol (o'r enw LAFS)	Yn ystod y tymor	5			4 Hydref 2004
Clybiau chwaraeon amrywiol	Yn ystod y tymor	1-2		3 thymor	Ionawr 1999
Clwb cyfrifiaduron	Yn ystod y tymor	1		2 dymor	Medi 2006
Clwb celf (gan artist lleol)	Yn ystod y tymor	1		1 tymor	Medi 2010
Gwersi Ffrangeg	Yn ystod y tymor	1			Medi 2013

Tabl 9: Gweithgareddau Allgyrsiol Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

4.13. Mae Tabl 10 yn dangos y cyfleusterau lleol y mae'r ysgol yn eu ddefnyddio.

Cyfleuster	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Coedwig Llwyn Tew	Yn ystod y tymor	1		2 dymor	2007
Capel	Yn ystod y tymor			1	Cyn 1988
Eglwys Ysceifiog	Yn ystod y tymor			1-2	2000
Parc	Yn ystod y tymor			4-5	Medi 2006
Neuadd Bentref Ysgeifiog	Yn ystod y tymor			1	2000
Fferm leol	Yn ystod y tymor			1	2015
Tafarn The Crown (lleoliad codi arian)	Yn ystod y tymor			1	2014
Chwarel Helygain	Yn ystod y tymor			1	2010

Tabl 10: Cyfleusterau Lleol y mae Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn eu defnyddio

4.14. Mae Tabl 11 y dangos cyfleusterau'r ysgol y mae grwpiau lleol yn eu ddefnyddio.

Defnyddiwr a'r cyfleuster	Yn ystod y tymor neu yn ystod gwyliau?	Sawl gwaith yr wythnos	Sawl gwaith y mis	Sawl gwaith y flwyddyn	Dyddiad y'i sefydlwyd
Sefydliad y Merched Neuadd	Yn ystod y tymor			1	Cyn 1988
Ffitrwydd staff Ystafell Ddosbarth	Yn ystod y tymor	1			2010
Lle diogel, fflat i rieni plant i ddysgu eu plant i reidio beic Iard	Tu hwnt i oriau ysgol		4		2014

Tabl 11: Cyfleusterau Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm y mae Grwpiau Lleol yn eu defnyddio

4.15. Mae Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm wedi darparu gwybodaeth ynghylch beth mae'r ysgol yn ei wneud i'r gymuned:

- Mae disgyblion yn pigo sbwriel i fyny yn y ddau bentref yn flynyddol;
- Ymgyrch poster baw cŵn gan ddisgyblion;
- Mae disgyblion wedi darparu adloniant blynyddol mewn cinio Nadolig i bobl hŷn;
- Pwyllgor Eco wedi annog defnydd cymunedol o finiau ailgylchu a banciau dillad; a

- Pwyllgor Eco wedi annog y gymuned i gymryd rhan yn eu prosiect ‘Lleihau Newid Hinsawdd’ ar ffurf ymgyrch posteri ar hyd a lled y pentref i annog pawb i ‘Wneud Un Peth’ i leihau’r effaith ar yr amgylchedd.

4.16. Mae Tabl 12 yn dangos y cyfleusterau cymunedol sydd wedi’u lleoli ger yr ysgol.

Enw’r Cyfleuster/Busnes	Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg	Dyddiad Dechrau
Tafarn	Dwyieithog	17eg Ganrif
Eglwys	Saesneg	1836
Capel	Cymraeg	1775
Neuadd Bentref Ysgeifiog	Yn dibynnu ar y digwyddiad (cynhaliwyd 3 digwyddiad codi arian ar gyfer yr Urdd 2014-16 a chyngerdd Cymraeg bob blwyddyn)	2005

Tabl 12: Cyfleusterau Cymunedol sydd ger Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

4.17. Mae Tabl 13 yn dangos y gweithgareddau cymunedol sydd ar gael ger yr ysgol.

Enw’r Cyfleuster/Busnes	Dwyieithog/Cyfrwng Saesneg neu Gyfrwng Cymraeg	Dyddiad Dechrau
Sefydliad y Merched Licswm	Saesneg (ond mae aelodau Cymraeg yn mynychu)	1929
Sefydliad y Merched Ysceifiog	Saesneg (ond mae aelodau Cymraeg yn mynychu)	Cyn 1939
Gŵyl Gelfyddydau Ysceifiog	Dwyieithog	2013
Dawnsio Morris	Dwyieithog	Cyn 1985
Enjoy-a-ball	Saesneg	2011?
Clwb Crefftau	Saesneg	2012
Cyngherddau Cymraeg a digwyddiadau codi arian yn Gymraeg (yn y Capel neu’r neuadd bentref)	Cymraeg	-
Côr Cymunedol	Dwyieithog?	2012
Helfa Gelf	-	2010?
Cynllun Chwarae Haf	Saesneg	Cyn 2000

Tabl 13: Gweithgareddau Cymunedol ger Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

4.18. Mae Tabl 14 yn dangos gofal plant a gofal cyn ysgol sydd ar gael yn yr ysgol.

Enw’r Darparwr Gofal Plant	Iaith	Yn annibynnol o’r ysgol	Lleoliad y Ddarpariaeth	Diwrnodau y mae’n weithredol
Clwb Brecwast	Saesneg	Nac ydi	Neuadd yr ysgol	Llun-Gwener 8.00-8.55 Yn ystod y tymor
Clwb Ar Ôl Ysgol (LAFS)	Saesneg	Ydi	Neuadd yr ysgol	Llun-Gwener 3.15-5.30 Yn ystod y tymor

Tabl 14: Darpariaeth Gofal Plant Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm

5. Effeithiau Posibl

5.1. Mae effaith pob opsiwn wedi cael ei ystyried yng nghyd-destun nifer o ffactorau, fel y gwelir yn Nhabl 15 isod. Os rhagwelir y bydd opsiwn o fudd i gymuned neu grŵp o fudd-ddeiliaid, fe'i nodwyd ei fod yn effaith cadarnhaol, ac os bydd opsiwn yn andwyol i ardal neu barti â diddordeb fe'i nodwyd yn negyddol. Mae opsiynau nad ydynt yn effeithio'n sylweddol ar ffactor wedi cael eu nodi yn niwtral.

5.2. Mae mesurau i fynd i'r afael ag unrhyw effeithiau negyddol a ragwelir wedi'u cynnwys yn y tabl hefyd.

	Opsiwn 1	**Opsiwn Cam 1**	**Opsiwn Cam 2**	
Ffactorau i'w hystyried	**Y Sefyllfa Bresennol**	**Un Ysgol Ardal ar ddau safle**	**Un ysgol ardal ar un Safle**	**Sylwadau a Mesurau i Leihau Effeithiau Negyddol**
Mynediad at ddarpariaeth o'r un dynodiad Ffydd	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Mae'r ddwy ysgol yn ysgolion cynradd cymunedol ar hyn o bryd a byddai'r ysgol ardal arfaethedig newydd yn ysgol gynradd gymunedol hefyd.
Mynediad at ddarpariaeth o'r un cyfrwng iaith	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Caiff addysg ei ddarparu trwy gyfrwng Saesneg yn y ddwy ysgol a byddai'n parhau felly yn yr ysgol ardal cyfun newydd.
Effaith ar y Gymuned	Niwtral	Niwtral	Cadarnhaol a Negyddol	Mae gan y ddwy ysgol gyfleusterau y mae'r cymunedau yn eu defnyddio. Petai Cam 2 Opsiwn 2 yn cael ei weithredu byddai un gymuned yn colli mynediad at adeilad ysgol. Nid oes yna unrhyw weithgareddau y mae'r naill ysgol yn eu darparu sydd angen cyfleusterau arbenigol ac felly fe allant gael eu cynnwys yn yr ysgol arall neu mewn adeiladau cymunedol eraill. Byddai Opsiwn 2 hefyd yn golygu gwaith ailfodelu mewn un ysgol a allai arwain at gyfleusterau gwell a fyddai ar gael i'r gymuned eu defnyddio.
Effaith ar Fusnesau Lleol	Niwtral	Niwtral	Cadarnhaol a Negyddol	Bydd cau un ysgol yn lleihau traffig yn y gymuned honno a byddai'n lleihau incwm i fusnesau. Bydd cynnydd mewn traffig yn y gymuned lle lleolir yr ysgol ardal ac fe allai hyn rhoi hwb i'r economi leol.

	Opsiwn 1	Opsiwn Cam 1	Opsiwn Cam 2	
Ffactorau i'w hystyried	**Y Sefyllfa Bresennol**	**Un Ysgol Ardal ar ddau safle**	**Un ysgol ardal ar un Safle**	**Sylwadau a Mesurau i Leihau Effeithiau Negyddol**
Effaith ar ysgolion cyfagos	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Bydd gan yr ysgol gyfun ddigon o le i gynnwys pob disgybl sydd yn mynychu'r ddwy ysgol ar hyn o bryd.
Effaith ar ddisgyblion	Niwtral	Niwtral	Cadarnhaol a Negyddol	Fe allai Opsiwn 2 effeithio ar ddisgyblion petai'n cael ei weithredu gan olygu newid i'w athrawon, amgylchedd dysgu, grwpiau ffrindiau a thaith i'r ysgol. Mae Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg wedi cael ei lunio ac mae'r effeithiau posibl ar ddisgyblion wedi cael eu hystyried.
Effaith ar rieni/gofalwyr a theuluoedd	Niwtral	Niwtral	Cadarnhaol a Negyddol	Byddai cael gwared ar ysgol o un o'r cymunedau yn newid yr amgylchedd cymdeithasol a'r modd y mae grwpiau presennol o gyfeillion yn rhyngweithio. Mae'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg yn cynnwys yr effeithiau posibl ar rieni/gofalwyr.
Effaith ar drefniadau teithio i ddysgwyr	Niwtral	Niwtral	Niwtral	Petai Opsiwn 2 yn cael ei weithredu byddai'n rhaid i rai disgyblion deithio ymhellach i'r ysgol, tra byddai'n rhaid i rai eraill deithio llai o bellter. Fe allai plant sy'n mynychu eu hysgol agosaf fod â hawl i gefnogaeth o dan Polisi Cludiant y Cyngor http://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Transport.aspxhttp://www.flintshire.gov.uk/en/Resident/Schools/School-Transport.aspx). Mae Asesiad o Effaith ar Gludiant wedi cael ei lunio i edrych ar effaith posibl y byddai gweithredu Opsiwn 2 yn ei gael ar drefniadau cludiant presennol.
Effaith ar ddemograffeg y gymuned	Niwtral	Niwtral	Negyddol	Bydd colli ysgol o unrhyw gymuned yn cael effaith negyddol ar yr ardal oherwydd fe all ysgol dda ddenu pobl i'r rhanbarth. Fodd bynnag, mae yna 4 cais cynllunio i ddatblygu tai wedi'u cymeradwyo ar gyfer naill ai Brynffordd neu Licswm.

Tabl 15: Ffactorau a Ystyriwyd ac Effeithiau Posibl

6. Casgliadau

6.1. Petai Opsiwn 1 yn cael ei ddewis, sef parhau â'r sefyllfa bresennol, yna bychan iawn, os o gwbl fyddai'r effaith ar y cymunedau. Byddai Ysgol Gynradd Gymunedol Brynffordd ac Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn cadw eu hunaniaeth unigol ac yn parhau fel dwy ysgol ar wahân.

6.2. Os bydd Opsiwn 2 yn cael ei weithredu mae effeithiau cadarnhaol a negyddol wedi cael eu nodi. Yn ystod cam 1, sef y cyfnod y byddai'r ysgolion yn uno i ffurfio un ysgol ardal newydd a fyddai'n gweithredu ar y ddwy safle bresennol, byddai effeithiau negyddol yn anwybyddadwy.

6.3. Fe gydnabyddir fodd bynnag ar ôl i Gam 2 gael ei gwblhau, pan fydd yr ysgol ardal newydd yn cael ei ailfodelu a'i ymestyn i safle presennol Brynffordd gan arwain at gau safle Licswm, bydd hyn yn arwain at effeithiau cadarnhaol a negyddol.

6.4. Byddai cau Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn lleihau nifer yr adeiladau y gallai'r gymuned eu defnyddio yn yr ardal. Disgwylir y gallai mwyafrif y gweithgareddau, os nad pob un sy'n defnyddio'r ysgol ar hyn o bryd, gael eu hadleoli i gyfleusterau eraill yn y pentref.

6.5. Ar ôl symud i un safle, fe allai disgyblion gael athrawon newydd ac fe allai mwy o blant fod yn eu dosbarth. Er y bydd rhai yn bryderus am y newidiadau hyn, byddai cynlluniau pontio yn cael eu rhoi ar waith er mwyn helpu i leihau pryderon a hyrwyddo integreiddio.

6.6. Mae yna effeithiau cadarnhaol hefyd oherwydd fe fydd plant yn elwa o gyfleusterau gwell yn dilyn buddsoddiad gan yr Awdurdod Lleol ac yn ei dro, dylai hyn helpu i gynyddu safon yr addysg y mae plant yn ei dderbyn. Mae yna gyfle hefyd i ddisgyblion a rhieni/gofalwyr ddatblygu cyfeillgarwch newydd a chymryd rhan mewn gweithgareddau newydd.